Ondata Research

# Adroddiad Gwerthuso Mentora Fideo

Clare Meakin a Laura Thomas

Hydref 2022

## Cyflwyniad gan dîm y Prosiect Mentora Ffiseg

Yn 2020, oherwydd effaith y pandemig, ni ddaeth y Prosiect Mentora Ffiseg o hyd i gyllid i barhau â'i weithgareddau y tu hwnt i fis Awst. I rannu'r adnoddau a'r dysgu o'r prosiect, lluniwyd y cysyniad o Fentora Fideo. Byddai Mentora Fideo yn creu ffilmiau wedi'u paratoi ymlaen llaw a gweithgareddau sy'n cael eu llywio gan fentoreion ac yn sicrhau eu bod ar gael ar y wefan Mentora Ffiseg. Derbyniodd tîm y project gyllid ar gyfer y prosiect Mentora Fideo gan The Waterloo Foundation i gyflawni hyn.

Nod Mentora Fideo oedd cefnogi amcanion y PMFf o:

- Gynyddu'r nifer sy'n gwneud ffiseg Safon Uwch, yn enwedig merched.
- Tynnu sylw at yrfaoedd a sgiliau trosglwyddadwy a enillir drwy astudio ffiseg.
- Cynyddu ymgysylltiad â gwyddoniaeth, hunanymwybyddiaeth a hyder.
- Cefnogi ffisegwyr i ddatblygu eu profiad cyfathrebu gwyddoniaeth.

Nodau'r prosiect Mentora Fideo oedd:

- Dylunio, gyda chymorth mentoriaid hyfforddedig, 5 fideo mentora gyda gweithgareddau ac adnoddau cysylltiedig sy'n dilyn themâu'r sesiynau wythnosol.
- Creu'r fideos uchod i safon uchel, mewn cydweithrediad â fideograffydd o Gymru.
- Rhoi cyfle i 5 mentor gyflwyno fideo yr un.
- Ymgysylltu â 5 o gyflogwyr/partneriaid diwydiant o Gymru drwy gydweithredu mewn fideos.

Yn fuan ar ôl i gyllid gael ei ddyfarnu ar gyfer y prosiect Mentora Fideo, dyfarnwyd dwy flynedd arall o gyllid i'r Prosiect Mentora Ffiseg craidd, gan ganiatáu iddo barhau. Roedd hyn yn golygu nad oedd y prosiect Mentora Fideo bellach yn brosiect etifeddiaeth, ond un a fyddai'n cynnig adnoddau o ansawdd uchel i ddyfnhau effaith y prosiect mentora craidd. Roedd hyn yn arbennig o ffodus mewn cyfnod lle roedd y prosiect yn symud ei ddarpariaeth ar-lein oherwydd y pandemig ac fe'i trafodir ymhellach yn yr adroddiad hwn. Crynhoir y rhain yn y tabl isod.

Cynhyrchwyd yr holl fideos ar y cyd â'r fideograffydd clodwiw o Gymru, Ffocws Media, ac mae'r holl adnoddau a fideos yn ddwyieithog neu mae fersiynau dwyieithog ar gael.
Mae gweofod wrthi'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r prosiect, a fydd yn rhoi llwyfan ar gyfer lawrlwytho a gweld adnoddau a fideos. Mae'r Prosiect Mentora Ffiseg yn bwriadu defnyddio'r gweofod ar-lein a ddatblygwyd i ddarparu hyfforddiant ac adnoddau i'w gyfranogwyr.

| Fideo | Thema wythnosol | Disgrifiad byr | Mentoriaid/gwirfoddolwyr o'r diwydiant |
|---|---|---|---|
| 1 a 5 | Fy Nhaith Ffiseg a'r Byd o'm Cwmpas | Mae'r fideo yma mewn dwy ran (a gellir ei ddefnyddio fel dau fideo ar wahân):<br>1. "Her paid rhuthro" steil TikTok yn arddangos hobïau mentoriaid<br>2. Cyfweliadau gyda mentoriaid i arddangos teithiau i mewn i ffiseg | 10 mentor i gyd o'r sefydliadau partneriaeth canlynol:<br>3 o Aberystwyth, 1 Bangor, 3 Caerdydd, 2 Abertawe, 1 Prifysgol De Cymru |
| 2 | Meddwl fel Ffisegydd | Mae mentor yn eich tywys trwy ei ddiwrnod gyda'r fideo'n cael ei stopio i egluro pan mae sgiliau penodol yn cael eu defnyddio yn ei fywyd o ddydd i ddydd (e.e. y broses wyddonol, sgiliau arbrofol, datrys problemau) | 1 mentor Abertawe, 1 Caerdydd. |
| 3 | Lle Gall Ffiseg Fynd â Fi | Pobl mewn ystod o yrfaoedd sydd â chefndiroedd gwahanol mewn ffiseg yn cael eu cyfweld am eu swyddi. Mae'r gwyliwr yn dyfalu beth maen nhw'n ei wneud. | 6 gwirfoddolwr o ddiwydiant. |
| 4 | Fideo Cydweithio, Gwaith Tîm a Chyfathrebu | Fideo 'safbwynt' o fentor o Gaerdydd sy'n astudio PhD yn CUBRIC yn cydweithio ag eraill. | 3 mentor o Gaerdydd. |
| **Gweithgareddau/adnoddau cysylltiedig:**<br>Gwylwyr i ddod o hyd i gliwiau i symud drwy gêm tebyg i ystafell ddianc ar-lein. | | | |

O safbwynt tîm y prosiect, tra bod pwyslais y prosiect Mentora Fideo wedi newid, mae'r nodau cyffredinol wedi'u cyflawni ac mae'r fideos ansawdd uchel hyn yn dal i gael eu defnyddio gan fentoriaid.

*Rosie Mellors*

*Rheolwr Prosiect, 2019-Gwanwyn 2022*

PHYSICS MENTORING PROJECT | PROSIECT MENTORA FFISEG

## Cyflwyniad i'r adroddiad gwerthuso

Cafodd yr adnoddau Mentora Fideo eu gwerthuso fel rhan o'r rhaglen ehangach o fentora sy'n cael ei rhedeg gan y Prosiect Mentora Ffiseg. Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno nifer o ffynonellau gwybodaeth er mwyn edrych yn fanylach ar effaith y fideos. Ceir disgrifiad o gynnwys y ffilmiau yn yr Atodiad ar dudalen 12. Am drafodaeth lawn o effaith y rhaglen fentora graidd yn 2021-2022, cyfeiriwch at yr Adroddiad Gwerthuso Blynyddol ar wahân. Fodd bynnag, o ran y cylchoedd mentora lle datblygwyd a defnyddiwyd y fideos (pedwar, pump a chwech) cafwyd yr effaith ganlynol ar fentoreion. Mae Tabl 1 yn dangos y newid mewn agweddau at Ffiseg Safon Uwch ar ôl cymryd rhan yn y prosiect ar gyfer y cylchoedd mentora diweddaraf (pump a chwech) yn 2021 a 2022. Cyrhaeddwyd tua thri chant o fentoreion (wyneb yn wyneb neu ar-lein) ar draws cylchoedd pump a chwech.

| | **Cyn cymryd rhan** | **Ar ôl cymryd rhan** |
|---|---|---|
| Byddaf, yn bendant | 4.3% | 11.4% |
| Byddaf, yn fwy na thebyg | 22.9% | 20.0% |
| Rwy'n ansicr ar hyn o bryd | 38.6% | 30.0% |
| Fydda' i ddim, yn fwy na thebyg | 17.1% | 18.6% |
| Fydda' i ddim, yn sicr | 5.7% | 8.6% |

*Tabl 1. Pa mor debygol ydych chi o ddewis Ffiseg Safon Uwch?*

Mae mentoreion wedi dod yn fwy sicr am eu bwriad ac mae'r rhai sy'n datgan y byddan nhw'n bendant neu'n debygol o wneud Ffiseg Safon Uwch wedi cynyddu 4.2%. Mae hyn yn dipyn o gamp i'r prosiect, o ystyried profiadau addysgol pobl ifanc yn ystod y pandemig a'r tarfu a gafwyd. Ceir tueddiad tebyg mewn perthynas â diddordeb mewn gyrfaoedd gwyddoniaeth, a ddangosir yn Nhabl 2.

| | **Cyn cymryd rhan** | **Ar ôl cymryd rhan** |
|---|---|---|
| Yn bendant | 22.9% | 24.3% |
| Yn fwy na thebyg | 22.9% | 28.6% |
| Rwy'n ansicr ar hyn o bryd | 34.3% | 17.1% |
| Fydda' i ddim, yn fwy na thebyg | 8.6% | 12.9% |
| Fydda' i ddim, yn sicr | 0.0% | 5.7% |

*Tabl 2. Pa mor debygol ydych chi o fynd i yrfa gwyddoniaeth?*

Roedd cynnydd o 7.1% yn y rhai sydd â diddordeb mewn gyrfa sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen fentora. I roi rhywfaint o gyd-destun er mwyn

cymharu, gofynnwyd i ddysgwyr yn yr un ysgolion gwblhau'r un arolygon hyd yn oed pan nad oedden nhw'n cymryd rhan yn y rhaglen fentora. Gwelodd y grŵp na chafodd ei fentora ostyngiad o 8.1% mewn diddordeb mewn Ffiseg Safon Uwch a 7.2% mewn gyrfaoedd sy’n gysylltiedig â gwyddoniaeth.

## Methodoleg

Defnyddiwyd ystod o ddulliau gwerthuso ansoddol i gofnodi ymatebion mentoriaid a mentoreion ar ôl a rhwng sesiynau, gyda chyfweliadau lled-strwythuredig yn cael eu cynnal gyda mentoriaid ar ôl i sesiynau gael eu cwblhau. Nodir crynodeb o'r dulliau a ddefnyddir yn Nhabl 3.

| Dull | Diben |
| --- | --- |
| Cylchoedd myfyrdodau Mentoreion a Mentoriaid pedwar, pump a chwech | Nodi sylwadau gan fentoriaid a mentoreion am y defnydd o ffilmiau a'u heffaith |
| Arolwg mentoriaid | Cofnodi meddyliau mentoriaid ynghylch a oedden nhw'n defnyddio ffilmiau a'u barn arnyn nhw |
| Cyfweliadau mentoriaid | Cyfweliadau lled-strwythuredig gydag is-set fechan o fentoriaid i archwilio rôl a photensial y ffilmiau'n fanylach |

*Tabl 3: Dulliau a ddefnyddiwyd*

Dadansoddwyd y data gan ddefnyddio dadansoddiad[1] thematig atblygol ac mae'r adran drafod ganlynol yn amlinellu'r gwahanol themâu sy'n codi.

[1] Braun, V., Clarke, V. (2019) Reflecting on reflexive thematic analysis, *Qualitative Research in Sport, Exercise and Health*. 11:4, 589-597

**Ymwybyddiaeth a chanfyddiad mentoriaid o ffilmiau**

Cyflwynwyd mentoriaid i'r pedwar ffilm ffiseg newydd ("Fy Nhaith Ffiseg", "Meddwl fel Ffisegydd" "Lle Gall Ffiseg Fynd â Fi", "Gwaith Tîm a Chydweithio") fel rhan o'u proses sefydlu a hyfforddi. Roedd hyn yn cynnwys canllaw ar *"dyma lle gallwch chi ddod o hyd iddynt, dyma pryd rydych chi'n eu defnyddio'"* (Cyfweliad Mentor).

Roedd y mwyafrif o fentoriaid yn ymwybodol ohonynt ac yn gadarnhaol iawn am y ffilmiau:
*"Da iawn! Ro’n ni’n meddwl eu bod nhw'n ddefnyddiol iawn ac felly hefyd y myfyrwyr"*
(Arolwg Mentor).

Dywedodd y mwyafrif o fentoriaid eu bod wedi defnyddio'r ffilmiau gyda dim ond dau eithriad, gydag un mentor yn dweud na ddefnyddiodd y ffilmiau am ei fod yn *"blaenoriaethu ymgysylltu gweithredol (h.y. gweithgareddau grŵp) dros ymgysylltu goddefol (h.y. gwylio fideo/darlithio’n rhy hir)"* (Arolwg Mentor). Fodd bynnag, nododd yr un mentor fod y fideos yn dal i fod wedi cael effaith arno, gan ddweud, "*o bryd i'w gilydd rwy'n ailddefnyddio rhai syniadau o'r fideos."* (Arolwg Mentor).

Nid oedd unrhyw fentor yn teimlo nad oedd y ffilmiau’n ddefnyddiol, gydag un mentor yn dweud, *"Alla i ddim meddwl am unrhyw un lle dwedon ni, ch’mod, 'na, dwi ddim yn defnyddio'r un yna'."* (Arolwg Mentor).

**Defnyddiodd mentoriaid y ffilmiau mewn gwahanol ffyrdd o fewn sesiynau**

Mae tystiolaeth fod mentoriaid wedi defnyddio'r ffilmiau mewn amryw o ffyrdd o fewn eu sesiynau. Defnyddiodd rhai'r ffilmiau fel ysbrydoliaeth ar gyfer cynllunio eu sesiynau *("Ro’n i’n meddwl eu bod nhw’n grêt, wedi helpu gyda syniadau a chynlluniau sesiynau"*, Arolwg Mentor). Dewisodd rhai mentoriaid ddefnyddio'r ffilmiau fel sylfaen ar gyfer sesiwn gyfan, er enghraifft chwaraewyd "Dyfalwch fy ngyrfa" drwy gydol y sesiwn gyda seibiannau i ofyn am adborth gan y mentoriaid.

Defnyddiodd eraill y fideos fel offeryn ymgysylltu i wneud cysylltiadau â phrofiadau’r mentoreion eu hunain: *"Roedd fel hwb o ysbrydoliaeth. Felly yn lle jyst gofyn iddyn nhw, "sut mae pêl-droed yn ymwneud â ffiseg" gyda nhw’n ateb "dwi ddim yn gwybod", roedd rhywun yn y fideos yn sôn am sut mae pêl-droed [yn ymwneud â ffiseg], ac wedyn maen nhw'n gallu meddwl, "o ie, a phêl-fasged hefyd".* (Cyfweliad Mentor)

I un mentor, roedd y ffilmiau'n offeryn defnyddiol ar gyfer cyflwyno sesiynau'n rhithiol: *"Roedd y dasg fideo gyrfaoedd yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer mentora rhithwir gan ei fod yn caniatáu i'r myfyrwyr gydweithio ac yn dangos yr ystod o swyddi sy'n defnyddio sgiliau sy'n gysylltiedig â ffiseg."* (Arolwg Mentor). Felly, ar hap a damwain, gwnaeth cydamseru'r prosiect Mentora Fideo a'r symudiad i fodel mentora ar-lein, oherwydd y pandemig COVID-19, helpu i sicrhau bod adnoddau o ansawdd uchel ar gael i fentoriaid.

Roedd mentoriaid hefyd yn gallu myfyrio ar sut y gallent ddefnyddio'r ffilmiau'n wahanol yn y dyfodol, gan gynnwys ystyriaethau ar gyfer defnyddio ffilmiau mewn sesiynau rhithwir: *"Dwi'n meddwl, yn lle gofyn i'r mentoreion wylio fideo yn unigol, efallai y byddai wedi bod yn well i ni wylio'r fideo i gyd gyda'n gilydd drwy rannu'r sgrin*" (Myfyrdod Mentor).

Nodwyd bod cyfle i ymgysylltu'n fwy â mentoriaid drwy ddefnyddio'r ffilmiau ymysg dulliau darparu eraill: *"gallem ei stopio'n amlach a siarad amdano ac o bosib wneud gweithgareddau rhwng pob person a chael lefel uchel o ryngweithio o fewn y grŵp yn hytrach na dim ond gwylio'r fideo"* (Cyfweliad Mentor).

Mae'n amlwg, waeth beth fo'r dull mentora (ar-lein neu wyneb yn wyneb) fod cyfleoedd i ddatblygu eu defnydd ymhellach.

**Effaith ar ymwybyddiaeth o yrfaoedd ffiseg**

Cafodd un ffilm effaith arbennig o gryf i'r mentoriaid a'r mentoreion. Adroddwyd bod y ffilm "Lle Gall Ffiseg Fynd â Fi?" yn arbennig o effeithiol gan y mentoriaid a'r mentoreion. Nododd mentoriaid pa mor bwysig yw hi fod y ffilm yn arddangos ystod eang o yrfaoedd: *"Mae'r fideo Lle Gall Ffiseg Fynd â Fi, sy'n dangos ystod o yrfaoedd sy'n defnyddio ffiseg, bob amser yn bachu sylw'r mentoreion! Mae'n dangos pa mor bwysig yw ffiseg i bawb"* (Arolwg Mentor).

Felly, helpodd y ffilm hon i ehangu ymwybyddiaeth mentoreion o swyddi sy'n gysylltiedig â ffiseg.

Dywedodd mentoriaid fod ehangder y swyddi a gynrychiolir yn y ffilm yn agwedd gadarnhaol iawn a gafodd effaith gref ar fentoreion: *"roedd wir yn dangos y gwahanol feysydd y mae pobl yn eu dilyn mewn perthynas â ffiseg, ac nid dim ond y rhai sydd â gradd ffiseg, ond y rhai nad oes ganddynt un, ond sy'n defnyddio ffiseg beth bynnag"* (Cyfweliad Mentor). Fe wnaeth y ffilm hefyd ehangu ymwybyddiaeth mentoreion o swyddi nad oedden nhw wedi dod ar eu traws o'r blaen (*"Dysgais fod swydd o'r enw 'Rheolwr Cleientiaid'", Myfyrdod Mentorai).* Ehangodd cynnwys y ffilm ymwybyddiaeth mentoreion o 'bwy sy'n gwneud Ffiseg'.

Cafodd yr ystod o gyfweleion a gynrychiolir yn y ffilm ymateb cadarnhaol gan fentoriaid a mentoreion gan arwain at godi ymwybyddiaeth mentoreion o lwybrau gyrfa anhraddodiadol neu anystrydebol:
*"Dwi ddim yn gwybod sut ddaeth y tîm o hyd i'r bobl yma... Roeddwn i'n bendant yn gallu gweld llawer o fyfyrwyr yn synnu a, ch'mod, fel, 'waw', 'mae'r peth 'ma'n bodoli [yn yr yrfa yna]?"'* (Cyfweliad Mentor).
Heb i'r ffilmiau fod ar gael, ni fyddai mentoreion wedi gallu gweld enghreifftiau mor eang o fodelau rôl.

Roedd y ffilm yn gyfle i fentoriaid a mentoreion drafod defnyddioldeb ffiseg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a hefyd y gallai astudio ffiseg fod o fudd iddynt yn y dyfodol, gan gynnwys agor ystod eang o lwybrau gyrfa: *"Rwy'n credu bod hynny'n braf i'r mentoreion ei weld, ch'mod, taw nid dim ond llinell syth yw hi, mae 'na lawer y gallwch ei wneud gyda phwnc STEM fel ffiseg"* (Cyfweliad Mentor).

Dywedodd mentoriaid fod y fideo hefyd yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr weithio ar y cyd, a oedd yn arbennig o ddefnyddiol mewn sesiynau rhithwir: *"Roedd y dasg fideo gyrfaoedd yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer mentora rhithwir gan ei fod yn caniatáu i'r myfyrwyr gydweithio ac yn dangos yr ystod o swyddi sy'n defnyddio sgiliau sy'n gysylltiedig â ffiseg."* (Arolwg Mentor)

**Gwnaeth mentoreion fwynhau'r ffilmiau ac roeddent yn gallu gwneud cysylltiadau â'u bywydau**

Cafodd pob un o'r ffilmiau ymateb da iawn gan fentoreion ar draws cylchoedd pedwar, pump a chwech. Drwy'r myfyrdodau mentoreion o gylch pump, nodwyd mai'r *"fideos addysgol"* (cylch pump Myfyrdodau Mentoreion) yw'r agwedd y gwnaeth mentoreion ei mwynhau fwyaf neu a oedd fwyaf defnyddiol iddynt (gan gyfeirio at y ffilm "Fy Nhaith Ffiseg"). Dywedodd mentorai arall o'r un sesiwn mai'r agwedd fwyaf defnyddiol oedd *"Eu straeon a sut y dechreuodd rhai mentoriaid ddysgu am Ffiseg"* (cylch pump Myfyrdodau Mentoreion). Roedd mentoreion hefyd yn gallu defnyddio'r ffilmiau i wneud cysylltiadau ag agweddau ar eu bywydau eu hunain ("Fe wnes i fwynhau sut roedd y ffiseg y siaradwyd amdani wir yn gysylltiedig â'n hobïau", cylch pedwar Myfyrdodau Mentoreion).

**Roedd defnyddio ffilmiau yn gyffredinol fel mecanwaith darparu yn boblogaidd gyda'r mentoriaid a'r mentoreion**

Yn ogystal â'r ffilmiau a ddarparwyd gan Mentora Ffiseg, roedd tystiolaeth bod mentoriaid hefyd yn ategu sesiynau gyda'u ffilmiau esboniadol eu hunain:

- *"Fe wnes i fwynhau'r fideos arddangos, yn enwedig y plât dirgrynu!"* Cylch pedwar Myfyrdodau Mentoreion.
- *"Fe wnes i fwynhau'r fideo am y naid uchel",* cylch un Myfyrdodau Mentoreion.
- *"Fe wnes i fwynhau gwylio'r fideo am droelli",* cylch chwech Myfyrdodau Mentoreion.

Mae hyn yn awgrymu bod mentoriaid yn gweld gwerth mewn defnyddio ffilmiau yn gyffredinol i ategu eu sesiynau mentora, ac roedd y dull darparu wedi ennyn diddordeb mentoreion.

**Ymwneud â’r gwaith o ddatblygu'r ffilmiau: manteision i fentoriaid**

Gwnaeth y gwaith o ddatblygu’r ffilmiau eu hunain roi cyfleoedd i fentoreion gael dealltwriaeth ddyfnach o'r prosiect ei hun *("roedd yn ddefnyddiol oherwydd fe ddysges i ychydig am y prosiect hefyd fy hun. Meddyliais amdano mewn ffordd wahanol",* Cyfweliad Mentor), ond hefyd i ddatblygu eu sgiliau cyfweliad a chyfathrebu y maent wedi'u defnyddio mewn prosiectau yn dilyn eu hymgysylltiad â Mentora Ffiseg.
*"Dwi wedi gwneud stwff ers hynny... mae jyst yn rhyw fath o gyfweliad yn y fan a'r lle. Mae wir yn gwneud i chi feddwl"*, Cyfweliad Mentor).

Roedd y profiad hefyd wedi eu helpu i ddatblygu eu hyder yn cael eu ffilmio a’u cyfweld:
*"Hyder yn sicr, oherwydd ry’ch chi’n cerdded i mewn i ystafell o bobl dydych chi heb gwrdd â nhw o’r blaen. Ac roedd ‘na griw camera go iawn, gyda goleuadau a stwff a'r meic ac ati."* (Cyfweliad Mentor).

## Casgliad

Drwy gydol y cyfnod pan ddefnyddiwyd y ffilmiau, mae effaith gadarnhaol wedi bod ar fentoriaid o ran eu hagweddau a'u bwriad mewn perthynas â Ffiseg Safon Uwch a gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â ffiseg. Ystyriwyd bod y ffilmiau wedi'u pitsio'n dda, eu bod o ansawdd uchel a'u bod yn berthnasol i fentoreion fel cynulleidfa. Roedd y ffilmiau eu hunain yn gallu arddangos yn effeithiol yr ystod o sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio ffiseg mewn ystod o rolau a gyrfaoedd. Roedd y bobl a gafodd sylw'n dod o ystod amrywiol o yrfaoedd a chefndiroedd, gan ehangu'r mathau o fodelau rôl sydd ar gael i'r mentoreion. Cyfrannodd y ffilmiau at ehangu canfyddiadau mentoreion o bwy sy'n gwneud ffiseg, sut roedd ffiseg yn gysylltiedig â'u bywydau a sut y gallai astudio ffiseg ymhellach eu helpu yn eu bywyd - nid fel pwnc academaidd yn unig.

Roedd gan fentoriaid set o adnoddau o safon y gallent eu defnyddio mewn modd hyblyg o fewn eu sesiynau, p'un a oeddent yn ymgysylltu ar-lein neu'n bersonol. Roedd yr hyblygrwydd hwn yn caniatáu i fentoriaid eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd o fewn eu sesiynau, h.y. fel sail ar gyfer sesiwn gyfan, fel ysbrydoliaeth, fel rhan o sesiwn. Roedd y mentoriaid hefyd yn gallu magu eu hyder wrth ddefnyddio ffilmiau i ymgysylltu mentoreion mewn sesiynau ac, i'r rhai a gymerodd ran yn natblygiad y ffilmiau, fe wnaethant hefyd fagu hyder yn cael eu cyfweld ar gamera. Gwnaeth hefyd gynnig set o adnoddau o safon ar adeg pan roedd y prosiect wedi symud i ddarpariaeth ar-lein oherwydd y pandemig COVID-19, gan felly gynyddu'r effaith a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer y prosiect.

Mae'r prosiect hwn wedi cefnogi'r PMFf i gwrdd â'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n gwneud Ffiseg Safon Uwch, gan rannu gwybodaeth gyrfaoedd a sgiliau a datblygu sgiliau cyfathrebu gwyddoniaeth a hyder mentoriaid sy'n cymryd rhan yn y gwaith o greu'r fideos. Bydd yr adnoddau yn parhau i gael eu defnyddio gan fentoriaid, gan sicrhau gwaddol mwy hirdymor.

## Atodiad: Crynodeb o bob ffilm

Paratowyd y nodiadau hyn gan y gwerthuswyr yn seiliedig ar wylio'r ffilmiau.

| | |
|---|---|
| Fy Nhaith Ffiseg (9 munud+) | Yn dechrau gyda her tiktok sy'n dangos pobl ifanc mewn 2 ffrâm: un mewn crys-t PMFf gyda phrop cyn newid i'w dangos mewn dillad gwahanol yn arddangos eu prop (yn seiliedig ar eu hobi).<br>Yna mae pob un o'r mentoriaid yn cyflwyno eu hunain<br>Torri i ddangos pob mentor yn eistedd mewn labordy neu swyddfa gyda mwg sy'n cynnwys cwestiynau:<br>1. Disgrifiwch eich taith ffiseg yn gryno<br>2. Pam dwi'n caru ffiseg...<br>3. Oeddet chi'n hoffi Ffiseg yn yr ysgol?<br>4. Pa sgiliau mae ffiseg wedi'u dysgu i chi?<br>5. Ble yw eich hoff le i weld ffiseg?<br>6. Pam ydych chi'n fentor? |
| Meddwl fel Ffisegydd (4 munud+) | Yn cyflwyno sgrin hollt o gwpl o bobl yn gwneud pethau arferol (cerdded, cloi beic), yna'n newid i bobl yn mynd i labordy/ystafell ddosbarth:<br>Ar un ochr mae rhywun yn chwarae clarinét – 'sgiliau echddygol', 'creadigrwydd', 'cyd-destunoli'<br>Ar un ochr mae myfyrwyr mewn labordy - 'arbrofi', 'sgiliau dadansoddol', 'dadansoddi data'<br>Wedyn mae'n newid i rywun yn edrych ar feic sydd â theiar fflat – 'arsylwi', 'sgiliau ymarferol'<br>Yn y bôn dyma 'ddiwrnod ym mywyd' cwpl o ffisegwyr a phopeth maen nhw'n dod ar ei draws - sut mae ffiseg yn berthnasol bob dydd |
| Lle Gall Ffiseg Fynd â Fi (19mun+) | Pennau siarad o wahanol oedrannau, rhywiau yn siarad am eu swydd, eu hoff ran ac ati. Yn gorffen gyda 'beth ydych chi'n meddwl dwi'n ei wneud fel swydd?'<br>Ar ôl iddyn nhw siarad am eu swyddi, mae 'na ddatgeliad:<br>Uwch radiograffydd<br>Prif gogydd<br>Darlithydd Ffiseg Faterol<br>Rheolwr Cleientiaid<br>Gwneuthurwr Ffilmiau<br>Cyfathrebwr Gwyddoniaeth, awdur, rapiwr |
| Cydweithio, Gwaith tîm (2 funud+) | Ffilm o safbwynt myfyriwr PhD yn mynd trwy ddiwrnod arferol, o fynd i'r swyddfa i'r math o bethau y byddai'n eu gwneud bob dydd, pwy mae'n gweithio gyda nhw, mynd i'r ysbyty i ddefnyddio'r sganiwr MRI, gwneud y sganiau, a'r bobl y mae'n dod i gysylltiad â nhw ar hyd y ffordd. |

## Ynglŷn â’r awduron

Mae Ondata Research yn cydweithio â chleientiaid i’w helpu i ddeall effaith prosiect, yn ogystal â darparu mentora a chymorth trwy gamau datblygu a darparu prosiect.

**Clare Meakin**

Mae Clare wedi gweithio yn y maes ymgysylltu gwyddoniaeth ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol a lleol yn Llundain ac ar draws yr Alban dros y 10 mlynedd diwethaf. Gan weithio mewn darparu a datblygu, mae ei phrosiectau mewn amgueddfeydd wedi amrywio o weithdai tincro i fyfyrwyr uwchradd i ddigwyddiadau gwyddoniaeth i dros 4,000 o bobl. Yn fwyaf diweddar fel Rheolwr Ymgysylltu Gwyddoniaeth yn National Museums Scotland, mae ei gwaith wedi canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth ymgysylltu gwyddoniaeth ochr yn ochr â gwerthuso ystod eang o brosiectau STEM a ariennir ar gyfer cyllidwyr fel Scottish Power Foundation, Llywodraeth yr Alban a Plant Mewn Angen. Fel gweithiwr llawrydd mae wedi gweithio gydag amgueddfeydd rhanbarthol fel yr Andrew Carnegie Birthplace Museum ar ASN ac ymgysylltu â gwyddoniaeth ddigidol, a chyn hynny bu'n gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion cynradd ar gyfer allgymorth, clybiau STEM ar ôl ysgol ac ymgynghoriadau athrawon.

**Laura Thomas**

Mae gan Laura brofiad helaeth gydag ystod o brosiectau addysg ar draws addysg ffurfiol ac anffurfiol. Yn ogystal â gwerthuso, mae hi’n brofiadol yn datblygu prosiectau ac adnoddau, darpariaeth a hyfforddiant i amrywiaeth o sefydliadau, fel ysgolion, canolfannau gwyddoniaeth, amgueddfeydd, elusennau addysg, prifysgolion a chyrff proffesiynol. Mae hi’n ymgymryd ag ymchwil PhD i ddatblygiad proffesiynol athrawon ar ôl gorffen MRes mewn Ymchwil Addysg gyda Phrifysgol Stirling.

Cynhyrchwyd ar gyfer: PHYSICS MENTORING PROJECT | PROSIECT MENTORA FFISEG

Ondata Research

Ondata Research LTD 10 Douglas Terrace, Stirling, FK7 9LL
info@ondata.org.uk www.ondata.org.uk 07887920426

Rhif cwmni: SC621169 (Cofrestrwyd yn yr Alban)